Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol G.G. Caerffili

**Heol Parcyfelin**
**Caerffilli**
**CF83 3AH**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol G.G. Caerffili

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | YSGOL GYMRAEG CAERFFILI |
| Awdurdod lleol | Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr | 447 |
| Nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol | 324 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 68 |
| Canran o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 13.5% |
| Canran o ddisgyblion oedran ysgol statudol sydd ag angenion addysg arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag angenion addysg arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 16.7% |
| Canran o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 4.9% |
| Canran o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Mawrth 2022 |
| Dyddiad yr arolwg Estyn blaenorol (os yn berthnasol) | 08-10-2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolwg hwn | 28-02-2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolwg.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

(a) Mae’r term ‘angenion addysg arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffilli yn darparu profiadau gwerthfawr i'w disgyblion. Mae arweinyddiaeth gref, ac athrawon a chymorthyddion brwdfrydig yn sicrhau lles disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu fel dinasyddion cydwybodol, hyderus a Chymreig.

Mae staff yn darparu profiadau dysgu cyffrous sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a dysgu'n effeithiol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Er yr heriau y mae'r ysgol wedi ei hwynebu o ganlyniad i gyfnod y pandemig, mae'r ymdeimlad o gymuned glos ymhlith rhieni, staff a disgyblion wedi golygu ei bod wedi wynebu'r her gyda gwydnwch amlwg. Mae ymrwymiad diflino'r staff, ynghyd â chefnogaeth amlwg y rhieni, wedi cefnogi disgyblion drwy cyfnod y pandemig. Golyga hyn bod rhan fwyaf y disgyblion wedi parhau i wneud cynnydd, yn enwedig yn eu medrau digidol a llafar Cymraeg.

Er bod y pandemig wedi arafu paratoadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, mae gan yr ysgol sylfaen gadarn i adeiladu ar ei threfniadau presennol. Mae tîm o athrawon a chymorthyddion egnïol a gwybodus, sy'n barod i arbrofi a rhannu syniadau, yn awyddus iawn i barhau gyda'u paratoadau. Mae cydweithio effeithiol ymysg staff wrth ddarparu profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau fod staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cael effaith cadarnhaol ar addysgu a dysgu. Mae hyn, ynghyd ag arweinyddiaeth strategol amlwg tuag at ddatblygu'r cwricwlwm, yn sicrhau fod cyfeiriad clir i waith yr ysgol wrth baratoi ar gyfer y dyfodol.

## Argymhellion

A1 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm

A2 Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Prif ganfyddiadau

## Dysgu

Dros eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cyfnod a'u mannau cychwyn. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof, yn caffael gwybodaeth, dwysau dealltwriaeth a datblygu medrau newydd yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau meddwl yn synhwyrol, er enghraifft wrth gystadlu mewn cystadlaethau gwyddbwyll. Maent yn rhyngweithio yn effeithiol gyda'i gilydd wrth ymchwilio mewn gweithgareddau gwyddoniaeth neu wrth ymestyn eu medrau meddwl wrth ddatrys problem, er enghraifft wrth ystyried nodweddion pwysig wrth greu llong.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r medrau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saeseg sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu a rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth gydag athrawon a disgyblion eraill yn llwyddiannus. Maent yn gwrando ar ei gilydd yn gwrtais ac yn cyfrannu'n dda wrth gynnal trafodaethau am eu gwaith. Maent yn caffael yr iaith Gymraeg o oedran ifanc yn fedrus sy'n eu galluogi i ddefnyddio ystod dda o eirfa er mwyn ymestyn eu sgyrsiau. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth yn gynyddol hyderus. Maent yn defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml ac yn mynegi beth yw eu hoff bethau. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn ddealladwy ac yn cyfrannu at weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig y cyfnod sylfaen ac oddi fewn Cyfnod Allweddol 2 yn esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau i'w cynorthwyo, er enghraifft oddi  ar y we. Gallant drefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, trwy roi gwybodaeth gefndir a chyflwyno crynodeb byr o'r prif bwyntiau. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ddefnyddio geirfa newydd yn aml. Er yr heriau y maent wedi eu hwynebu yn ystod y pandemig, mae medrau iaith lafar llawer o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu'n gyson ac yn cyrraedd safonau uchel.

Yn y dosbarthiadau derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod y gwahaniaeth rhwng llythrennau mewn ystod o sefyllfaoedd ac yn defnyddio cyd-destun i ddeall y cynnwys. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn gynyddol hyderus a, gan amlaf, yn deall yr hyn y maent wedi ei ddarllen. Mae eu medrau darllen yn datblygu'n fuan gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod o dechnegau i sefydlu ystyr. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn frwd wrth gofio beth oedd cynnwys eu stori, gan egluro sut berson yw'r prif gymeriad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn newid goslef eu llais a dynwared cymeriadau wrth ddarllen llyfrau ffuglen. Maent yn hyderus wrth ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ymateb i amrywiaeth eang o destunau ac yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau. Maent yn cywain gwybodaeth am bwnc o fwy nag un ffynhonnell gan ei defnyddio'n briodol i gryfhau eu gwaith ysgrifennu, er enghraifft wrth greu llythyr ynglŷn â chynhesu byd eang.

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Yn y dosbarthiadau derbyn, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth

gopïo ac ysgrifennu llythrennau, geiriau ac ymadroddion syml mewn sialc neu wrth ddefnyddio lluniau a symbolau i greu ysgrifen ar sgrin.  Ar draws yr ysgol, pan maent yn cael y cyfle i ysgrifennu'n estynedig ac mewn ystod o ffurfiau, mae llawer yn defnyddio geirfa ac ansoddeiriau hynod effeithiol i gyfoethogi eu testunau. Mae hyn yn cyfoethogi eu hysgrifen ac yn adlewyrchu eu defnydd achlysurol o'r geiriau hyn ar lafar. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ail-ddrafftio er mwyn mireinio a chyflwyno darnau o ansawdd uchel. At ei gilydd, mae medrau ysgrifennu estynedig lleiafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol, ond byddent yn elwa o gael profiadau ychwanegol i gymhwyso'r medrau hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mae gormod o daflenni gwaith parod mewn lleiafrif o amgylchiadau'n llesteirio annibyniaeth y disgyblion i ysgrifennu yn ddigon rhydd a dewis y cyfrwng gorau o gyfleu eu safbwyntiau neu wrth gyflawni tasg.

Ar draws yr ysgol, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Yn y dosbarthiadau derbyn, mae disgyblion yn datrys problemau syml mewn sefyllfa ymarferol sy'n cynnwys adio a thynnu syml hyd at 5. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau rhifedd wrth gyfrifo, gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig yn hyderus. Maent yn dadansoddi a chyflwyno data yn drefnus, er enghraifft wrth greu graffiau bar ynglŷn â'r dillad sydd wedi cyrraedd yr ysgol ar gyfer y siop gyfnewid. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth rhif ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur pellter bwa saeth fel rhan o'u gwaith ar Seithennyn.

Agwedd cadarnhaol o ganlyniad i'r pandemig yw'r raddfa y mae medrau digidol disgyblion wedi gwella ymhellach. Mae cadw a rhannu gwaith yn electronig wedi dod yn rhan hanfodol o'u bywydau, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion bellach yn hyderus wrth goladu gwybodaeth ar wahanol systemau.  Ar draws yr ysgol, mae medrau cynhyrchu digidol disgyblion yn gryfder, er enghraifft wrth greu animeiddiad am ddydd Gŵyl Dewi.  Mae llawer yn datblygu eu gallu i gyfuno dulliau amlgyfrwng mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. O ganlyniad, yn unol a'u hoedrannau a'u gallu, mae llawer yn creu testun, delweddau, graffigwaith, sain, fideo ac animeiddiadau mewn cyfuniad er mwyn darparu cyflwyniad effeithiol am eu gwaith dosbarth.  Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae disgyblion yn dod yn gynyddol hyderus wrth gydweithio yn electronig er mwyn cwblhau darnau o waith neu wrth dderbyn a chyflwyno tasgau. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cyflwyno eu gwaith i'r athro gan ystyried yr ymateb ar ffurf electronig cyn mynd ati i wella a mireinio eu gwaith ymhellach. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn rhoi ystyriaeth fanylach i gynulleidfa a diben y cynnwys digidol dan sylw.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau disgyblion at ddysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gallant ymddiried yn y staff ac maent yn ymwybodol at bwy i droi os bydd ganddynt bryder. Mae llawer ohonynt yn siarad gyda balchder am y cyfleoedd a gynigir gan athrawon a chymorthyddion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod strategaethau am sut i gadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys wrth weithio ar-lein.

O ganlyniad i weithgaredd y cyngor eco o gynnal arolwg o focsys bwyd iach a dyfeisio dull gwobrwyo, mae bron bob disgybl yn deall manteision bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol ac mae llawer ohonynt yn mynychu ystod eang o glybiau a ddarperir gan yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn frwd ac  yn datblygu eu medrau arwain yn gyson. Er bod cyfyngiadau'r pandemig wedi amharu ar allu’r cynghorau i gyfarfod, maent wedi cwblhau nifer o gynlluniau, fel annog mwy o ddisgyblion i siarad Cymraeg yn y gymuned, codi sbwriel ac ymweld â’r goedwig i adeiladu tai i’r draenogod. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â sut gallant fod yn rhan o benderfyniadau sy'n ymwneud â gwella agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae bron bob un disgybl yn gwrtais a pharchus at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae disgyblion yn dal drysau ar agor i ymwelwyr yn fonheddig, ac yn eu cyfarch yn gwrtais â gwen groesawgar wrth gerdded o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd arbennig o rinweddau disgyblion yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog, yn drefnus ac yn siarad yn hyderus gydag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac ar y maes chwarae.

Mae disgyblion yn elwa’n fawr o drefniadau’r ysgol ar gyfer cefnogi eu lles emosiynol. O ganlyniad i’r gefnogaeth gyson hon, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi magu hunan-barch a hyder. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu’n dda ym mrwdfrydedd y disgyblion i gwblhau tasgau yn y dosbarth ac i weithio yn garedig a hynaws gyda’i gilydd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth sy’n datblygu’n effeithiol ynglŷn â’u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang, moesegol a gwybodus. Mae bron bob un yn parchu eu hawliau eu hunain, a hawliau pobl eraill. Mae ganddynt synnwyr cryf o degwch a chydraddoldeb i’w ffrindiau ac oedolion. er enghraifft wrth iddynt drafod rolau dynion a merched yn y frigâd dan.

Mae gan bron bob un o’r disgyblion berthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag oedolion, sy’n cefnogi eu dealltwriaeth o les yn hynod gadarnhaol. Mae gan bron bob disgybl agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maent yn gweithio’n fyrlymus i gwblhau eu gweithgareddau. Maent yn cydweithio’n ddiwyd mewn parau a grwpiau ac yn ystyriol wrth wrando ar safbwyntiau disgyblion eraill, gan rannu eu meddyliau a’u syniadau’n rhwydd a hyderus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad pan fyddant yn wynebu heriau, gan ymchwilio i ddatrysiadau eu hunain cyn gofyn am gymorth gan staff.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff yr ysgol yn cydweithio’n frwdfrydig ac angerddol i drochi’r disgyblion yn yr iaith Gymraeg o’u cyfnod cyntaf yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn modelu iaith yn feistrolgar, yn dangos brwdfrydedd at yr iaith ac arddel disgwyliadau uchel ar

gyfer safonau llafar disgyblion. Mae hyn yn atgyfnerthu arwyddair yr ysgol, sef 'Hawl plentyn ei Iaith'.

Mae arweinwyr ac athrawon wedi cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cyfagos i greu cynllun iaith sy'n datblygu medrau iaith disgyblion yn adeiladol a chyson. Mae hyn yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion o bob cefndir ieithyddol ac yn cyfoethogi eu hiaith yn llwyddiannus.  Mae gan y cymorthyddion ddealltwriaeth dda o'u rolau ar gyfer gweithredu'r cynllun ac mae eu brwdfrydedd dros eu cyfrifoldebau yn amlwg. Yn ogystal, mae eu dealltwriaeth o sut mae cefnogi disgyblion a'u symud i'r cam nesaf o'u datblygiad addysgol yn gadarn. Mae'r ysgol wedi strwythuro eu cefnogaeth i ddysgu'r Gymraeg yn hynod effeithiol drwy sicrhau bod athrawon yn cefnogi grwpiau o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth bellach a rhai mwy abl yn llwyddiannus, tra bod cymorthyddion yn gweithio gyda grwpiau eraill o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd safon uchel iawn yn eu medrau llafar Cymraeg o oedran cynnar iawn.

Mae athrawon yn darparu profiadau sy'n cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau diddorol o fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn offer ac adnoddau ar gyfer creu ardal allanol o safon uchel. Er bod llawer o ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd cyfoethog i ddefnyddio'r ardal, nid yw athrawon wedi datblygu'r arfer o hwyluso'r ardal hon fel rhan annatod o'r amgylchedd dysgu yn dilyn cyfyngiadau'r pandemig.  Yn ogystal, mae athrawon wedi trefnu profiadau cyfoethog i ddisgyblion, er enghraifft wrth ymweld â Gŵyl Llyfrau Y Gelli, darparu clybiau chwaraeon ac ieithoedd modern, sydd wedi'u hatal ar hyn o bryd.

Trwy gynllunio bwriadus, mae athrawon a chymorthyddion yn llwyddo i ddarparu her briodol i'r ystod lawn o allu'r ddisgyblion. Mae'r addysgu yn gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n cefnogi dysgwyr i fod yn uchelgeisiol a hyderus. Mae athrawon yn cydweithio'n fanwl i sicrhau cysondeb a dilyniant ar draws y cyfnodau dysgu. Mae hyn yn elfen gref o'r ddarpariaeth ac yn cynnig cynhaliaeth gefnogol i athrawon sydd newydd gymhwyso. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgwylion yn llwyddiannus. Mae'r gwaith diweddar i alluogi disgyblion i ddewis eu thema, er enghraifft 'Calon Lan' y tymor hwn, ym magu cyfleoedd i ddisgyblion wneud cysylltiadau yn eu dysgu trwy gyfuno a chymhwyso gwahanol brofiadau, gwybodaeth a medrau.

Mae arferion addysgu o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae gweithgareddau ffocws yn llwyddo i ddatblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol disgyblion yn fedrus, gyda chynnwys sy'n magu brwdfrydedd a bwrlwm yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n hyrwyddo medrau annibynnol er mwyn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Mae trefniadau asesu disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn effeithiol. Defnyddia'r athrawon gyfuniad o raglenni cefnogi parod a rhai sydd wedi eu creu'n fewnol, yn effeithiol er mwyn mesur cynnydd disgyblion, ac wrth osod targedau diwedd cyfnod. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer adnabod unigolion sydd angen cefnogaeth, ond hefyd ar gyfer darparu cefnogaeth sy'n cyfateb yn anghenion dysgu grwpiau o ddisgyblion, gosod targedau unigol ac er mwyn rhannu

gwybodaeth gyda rhieni. O ganlyniad, mae gan bron bob athro ddealltwriaeth gadarn o gynnydd disgyblion ac yn cynllunio'n ystyrlon i ddiwallu anghenion dysgu pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar, cefnogol a chroesawgar ble mae pob disgybl yn ymfalchïo eu bod yn aelod gwerthfawr o 'deulu' yr ysgol.

Mae gan staff adnabyddiaeth gadarn a threiddgar o anghenion disgyblion, ac o ganlyniad caiff trefniadau cefnogi eu llunio yn gynnar i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn. Mae aelodau staff gwybodus yn cyflwyno ystod fwriadus o raglenni effeithiol, fel rhaglenni cefnogi darllen a mathemateg, i wella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth gynhwysfawr sy'n eu cefnogi'n llwyddiannus i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn nodwedd hynod gadarn. Mae gan bob disgybl sydd ag ADY gynllun addysg unigol, sy'n cynnwys targedau penodol y mae staff yn eu hadolygu gyda rhieni'n rheolaidd. Mae cysylltiadau cadarn gydag ystod o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth iaith a lleferydd, yn darparu cymorth arbenigol a buddiol i ddisgyblion.

Mae staff yn darparu cymorth ardderchog ar gyfer lles disgyblion trwy raglen cymorth llythrennedd emosiynol a chlybiau anogaeth o dan oruchwyliaeth staff hynod o effeithiol. Adnabyddir gryfderau'r rhaglenni cefnogi hyn gan arbenigwyr gwasanaeth cwnsela Gwent sydd eisoes wedi rhannu arferion gorau'r ysgol gyda darparwyr iechyd ac addysgol eraill.

Trwy gydweithio hynod effeithiol, mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n llwyddiannus am gynnydd eu plant. Yn ystod y cyfnodau clo, derbyniodd rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gynnwys y cwricwlwm oedd yn cynnwys arweiniad ar sut i gefnogi eu plant wrth ddarllen gyda nhw gartref. O ganlyniad i'r gefnogaeth hon, mae hyn wedi hyrwyddo medrau darllen gyda rhieni a'u plant yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ymgorffori gweithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm ac ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u gwybodaeth ddiwylliannol yn effeithiol trwy ymweliadau plannu coed a chydweithio traws-genhedlaeth hefo criw'r henoed, er enghraifft.

Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at wahaniaeth ac amrywiaeth yn fedrus. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy weithgareddau dysgu a gwasanaethau am Rosa Parks, sy'n eu hannog i ddeall a pharchu amrwyiaeth. Mae gan yr ysgol gyfan ymagwedd ddylanwadol at reoli ymddygiad disgyblion a sefydlu diwylliant o wrth-fwlio.

Caiff disgyblion gyfleoedd niferus a gwerthfawr i ddatblygu eu gwybodaeth am bwysigrwydd ymddwyn fel dinasyddion gweithredol ac i ymgymryd â chyfrifoldebau'n synhwyrol. Mae'r pandemig wedi amharu ar allu grwpiau a chynghorau llais y disgybl

rhag cael effaith penodol ar weithdrefnau'r ysgol. Serch hyn, mae athrawon yn cefnogi disgyblion yn gyson er mwyn datblygu eu medrau arwain yn yr ysgol a thu hwnt, er enghraifft wrth annog y defnydd o'r Gymraeg ymhellach yn y gymuned leol. Yn ogystal, mae aelodau'r cyngor eco yn codi ymwybyddiaeth eu ffrindiau o bwysigrwydd ail-gylchu'n fedrus ac mae'r arweinwyr digidol yn hyrwyddo diogelwch ar-lein yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn creu cysylltiadau â'r gymuned yn effeithiol, er enghraifft wrth i aelodau'r gymuned ddarparu clybiau ieithoedd modern i ddisgyblion. Mae staff yn cydweithio'n ddygn wrth ail ddechrau ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Yn ogystal â'r amryfal weithgareddau chwaraeon, mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau sylfaenol, fel medrau rhif, darllen a TGCh.

Mae arweinwyr ac athrawon yn monitro presenoldeb disgyblion mewn trefniant gadarn wrth gydweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol, er enghraifft wrth hybu ymgysylltiad disgyblion gyda'u hathrawon yn ystod y pandemig. Mae diwylliant ac ymagweddau priodol gan yr ysgol tuag at ddiogelwch a lles disgyblion ac mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth a'r arweinwyr eraill yn llwyddo i ddarparu cyfeiriad strategol clir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Mae'r weledigaeth o ddatblygu disgyblion iach a hyderus mewn cymuned hapus a chroesawgar wedi'i rhannu'n llwyddiannus. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'u hunain, y staff a'r disgyblion ac o ganlyniad mae ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae eu sylw parhaus ar ddatblygu medrau proffesiynol pob aelod o staff yn elfen nodedig o waith yr ysgol.

Mae pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae timoedd o staff yn canolbwyntio ar agweddau penodol o'r ddarpariaeth yn hynod effeithiol. Golyga hyn y gall aelodau staff rannu eu harbenigedd ar draws ystod o agweddau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, cydweithio ar syniadau newydd a chefnogi eraill, yn effeithlon. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i unigolion ddatblygu'n broffesiynol ac i arwain ar agweddau penodol o waith o fewn yr ysgol ac yn ehangach. Er enghraifft, mae trefniadau staff wrth weithredu technegau addysgu a dysgu effeithiol o ddrilio iaith a datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg, wedi eu rhannu ar draws y rhanbarth. O ganlyniad, mae athrawon yr ysgol yn cefnogi ysgolion eraill o fewn y rhanbarth wrth iddynt ddatblygu eu darpariaeth llythrennedd. Esiampl arall o ddatblygiad hynod effeithiol gweithlu'r ysgol yw rôl y Cynorthwyon Addysgu Lefel Uwch (CALU). Wrth i gymhorthydd ennill cymhwyster i hyfforddi darpar CALU, mae un ohonynt yn hyfforddi ac yn asesu ymgeiswyr CALU ar ran y consortiwm rhanbarthol. Mae dwy CALU arall yr ysgol yn ei chysgodi yn y rôl. Mae hyn yn ehangu eu cyfleoedd proffesiynol personol ac yn sicrhau bod cymorthyddion yr ysgol yn derbyn yr hyfforddiant a'r wybodaeth ddiweddaraf am y rôl, sydd yn ei dro yn datblygu profiadau disgyblion yr ysgol yn ehangach.

Mae staff ar bob lefel yn cyfrannu at sesiynau dysgu proffesiynol yn rheolaidd, gan rannu eu harbenigedd yn llwyddiannus. Maent yn ymweld â dosbarthiadau ei gilydd

fel triawdau dysgu, pan fo amgylchiadau yn caniatáu, er mwyn arsylwi, myfyrio a mireinio eu dulliau addysgu. Mae hyn yn arwain at gysondeb cadarn yn y dulliau addysgu ar draws yr ysgol.

Mae Ysgol Gymraeg Caerffili yn rhan o bartneriaeth addysg Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, ac yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Golyga hyn fod staff yr ysgol yn gyfrifol am fentora nifer sylweddol o fyfyrwyr yn flynyddol. Mae hyn yn atgyfnerthu agwedd gadarnhaol yr holl staff tuag at ddysgu proffesiynol. Maent yn cydweithio'n effeithiol er mwyn arwain y myfyrwyr i ymchwilio i feysydd sydd yn dwysau eu dealltwriaeth o ddeilliannau ymchwil yn ymwneud ag addysgu a dysgu.

Mae trefniadau hunanwerthuso arweinwyr yn drwyadl, yn effeithiol ac yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol a barn y staff yn gyson wrth iddynt werthuso perfformiad yr ysgol. Er bod angen addasu nifer o weithgareddau monitro'r ysgol yn sgil y pandemig, mae'r adroddiadau monitro yn fanwl ac yn adnabod yr agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i roi camau mewn lle i fynd i'r afael â'r materion perthnasol. Defnyddir y wybodaeth o'r trefniadau monitro yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau lles a chynnydd ym medrau disgyblion, gan baratoi yn effeithiol ar gyfer dyfodiad y Cwricwlwm i Gymru a'r ddeddf anghenion dysgu ychwanegol

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Maent yn cefnogi athrawon i sicrhau fod medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn cael eu haddysgu'n llwyddiannus. Golyga hyn fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'r medrau erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn gweithredu'n fwriadus wrth leihau effeithiau tlodi ar gynnydd disgyblion, yn enwedig wrth i nifer o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gynyddu yn ystod cyfnod y pandemig. Maent yn defnyddio cyllid yn bwrpasol er mwyn targedu disgyblion yn effeithiol. Maent hefyd yn blaenoriaethu i baratoi a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Yn dilyn salwch achlysurol ond rheolaidd staff yn ystod y pandemig, mae awch yr ysgol tuag at gyflawni'r flaenoriaeth hon wedi'i liniaru. Mae uwch aelod o staff yn arwain ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd o fewn yr ysgol yn fedrus ac yn treialu cynllunio a gweithgareddau yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Maent yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth a'r staff am waith yr ysgol. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o natur yr addysgu a'r gefnogaeth a ddarparodd yr ysgol i'r disgyblion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnodau clo, gan gynnwys effaith y pandemig a'r gyflawniad a chynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth yn rheoli cyllid yn hynod ddarbodus. Mae gweithgareddau staff wrth gefnogi gwaith y consortiwm rhanbarthol, a'u partneriaeth gyda'r brifysgol, yn sicrhau incwm sylweddol i'r ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r cyllid ychwanegol ynghyd ag amrywiaeth o grantiau pwrpasol, er mwyn cael effaith gadarn ar wella medrau disgyblion. Er enghraifft, mae nifer fawr o gymorthyddion yn cael eu cyflogi er mwyn arwain rhaglenni cymorth a chefnogi disgyblion yn y dosbarthiadau. Yn ogystal, maent yn cynnal gweithgareddau addysgol y tu hwnt i oriau ysgol i

gefnogi medrau sylfaenol disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn sicrhau fod gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da, sy’n diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2022